| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **1 Mai 2025** |
| **TEITL** | **Penderfyniad Brys Cabinet** |
| **AMCAN** | **Er Gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**CEFNDIR**

1. Cyflwynwyd adroddiad eithriedig i'r Cabinet ar 8fed Ebrill 2025 ynglŷn a'r adolygiad barnwriaethol o benderfyniad y Cabinet i gadarnhau y Gorchymyn Erthygl 4 yn 2024 . Amcan yr adroddiad oedd adrodd ar yr achos a cheisio cyfarwyddyd y Cabinet ar y cyfeiriad. Oherwydd amserlen cyflwyno dogfennaeth a thystiolaeth i'r Llys roedd angen medru gweithredu a chyfathrebu y penderfyniad yn syth.

**PENDERFYNIAD BRYS**

2. O ganlyniad, bu'n ofynnol gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad y dylid ei eithrio o'r drefn galw i mewn. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniad Cabinet fod yn weithredol yn syth ac yn benodol felly heb ddisgwyl am bum diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi y daflen penderfyniad cyn y gellir ei weithredu. Mae'r drefn yma yn amodol ar gydsyniad Cadeirydd y Cyngor ac adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.

3. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn fater brys a bod hyn yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**ARGYMHELLIAD**

I dderbyn a nodi'r adroddiad.

**Prif Swyddog Cyllid**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad